

Castell Caerdydd

Gweithdy Oes y Tywysogion/Teyrnasoedd Canoloesol

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn naill ai Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg neu, pan fo'n bosibl, yn yr Isgrofft ganoloesol. Cynhelir yr arddangosfa saethyddiaeth ger y Ganolfan Ddehongli.

Disgrifiad

Sut oedd bywyd bob dydd mewn cadarnle canoloesol yn ystod Oes y Tywysogion ar gyfer gweision ac aelodau'r llys? Darganfyddwch fwy am arfau ac arwisgoedd a gwylwch arddangosfa saethyddiaeth wych er mwyn gweld pam roedd saethyddion Cymru yn anodd eu trechu.

Cynhelir y sesiynau gan hwylusydd proffesiynol mewn dillad o'r oes ac sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

Taith Dywys o'r Castell

Bydd taith o'r Castell yn mynd â'r plant o amgylch rhai o'r ystafelloedd mwyaf trawiadol a lliwgar a dyluniwyd gan y pensaer, William Burges. Mae ei gynlluniau'n dod o'r cyfnod Fictoraidd ond maent yn adlewyrchu gweledigaeth Burges o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych.

Hyd

Bydd y gweithdy yn para tua 1 awr. Bydd yr arddangosfa saethyddiaeth yn para 20-30 munud. Bydd taith dywys o'r Tŷ yn para tua 50 munud. Neilltuir amser ar gyfer cinio ac i ymweld â rhannau arall o'r safle (gweler yr hyn sydd wedi'i gynnwys isod).

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am y goresgyniad Normanaidd o Gymru a sut y gwnaeth Tywysogion Cymru ymateb iddo
- ◆ Dysgu sut y gallai byddin o Gymru ymosod ar gastell
- ◆ Dysgu bod y ffordd yr oedd tir yr oedd Tywysogion Cymru yn berchen arno yn cael ei rannu rhwng etifeddion a'r effaith a gafodd hyn ar eu pŵer
- ◆ Dysgu sut yr oedd hyn yn aml yn achosi Tywysogion Cymru i ymladd ymysg ei gilydd
- ◆ Dysgu rhai o nodweddion pobl o Gymru (cyfeirio at Gerallt Gymro)
- ◆ Dysgu am y gwahanol fathau o arwisgoedd ac arfau o'r oes a sut y cawsant eu defnyddio
- ◆ Dysgu am y gwahaniaeth rhwng y milwr cyffredin yn ne Cymru ac Arglwyddi'r Mers yn Lloegr
- ◆ Dysgu am arwyddocâd saethyddion Cymru mewn byddin ganoloesol (a ddangosir mewn arddangosfa saethyddiaeth)
- ◆ Gweld darluniadau o fywyd canoloesol a hanes yn addurniadau'r Castell (taith dywys)

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Hanes - Cyfnod Allweddol 2**
 - **Bywyd pob dydd pobl yn ystod Oes y Tywysogion (Cymru)**
 - **Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066 (Lloegr)**
- ◆ **Hanes Cyfnod Allweddol 3**
 - **Sut y gwnaeth dyfodiad y Normanaidd effeithio ar Gymru a Phrydain rhwng 1000 a 1500 (Cymru)**
 - **Datblygiad yr Eglwys, y wladwriaeth a chymdeithas ym Mhrydain Ganoloesol 1066-1509 (Lloegr)**

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Arddangosfa saethyddiaeth

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli).
Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.